**EITEM**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR CYNLLUNIO** |
| **DYDDIAD** | **27 EBRILL 2015** |
| **TEITL** | **Gorchymyn Cau Ffordd (rhan o ymyl y ffordd gerllaw'r A496 yn Llanelltyd)** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | **Argymell bod y Pwyllgor yn cefnogi'r cynnig i gyflwyno i cau'r rhan o ymyl gwyrdd o flaen Pen Y Garnedd, gerllaw'r A496 yn Llanelltyd** |
| **AWDUR** | **Dafydd Wyn Williams**<br>**Pennaeth Adran Rheoleiddio** |
| **ARGYMHELLIAD** | **I'r Pwyllgor cefnogi'r bwriad i gau rhan o'r ymyl gwyrdd o flaen Pen Y Garnedd, gerllaw'r A496 yn Llanelltyd, ar y sail nad yw bellach yn angenrheidiol fel briffordd** |
| **AELOD CABINET** | **Y Cynghorydd Dafydd Meurig** |

**1. Cyflwyniad**

1.1 Fe gwblhawyd cynllun i wella'r briffordd yn ôl yn 1980au cynnar i wella'r tro ar yr A496 heibio'r eiddo ac adnabyddir fel Maes y Garnedd a Pen y Garnedd yn Llanelltyd, i'r gorllewin o ysgol gynradd y pentref.

1.2 O ganlyniad i ail-luniad y briffordd fe tirlunwyd llinell wreiddiol y ffordd gyda rhan fawr yn cael ei gadw fel ymyl gwyrdd, o fewn ffiniau'r coridor y briffordd ac a'u gynnal ar gost gyhoeddus.

1.3 Mae cais bellach wedi cael ei dderbyn i brynu rhan o'r ymyl gwyrdd hwnnw gyda bwriad i'w gynnwys fel estyniad i ardd Pen y Garnedd. Buasai stribyn 2 fedr o led yn cael ei gadw fel priffordd, gyfochrog a'r ffordd er mwyn diogelu gweledu digonol, lle ar gyfer gwasanaethu tanddaearol a mynediad i golau stryd, ac fel tir i gerddwyr a beicwyr i loches.

1.4 Buasai telerau pryniant a gwerth y tir yn fater i Adran Eiddo'r Cyngor i'w gytuno gyda'r ymgeisydd.

1.5 Bwriad y Gwasanaeth Trafnidiaeth a Gofal Stryd felly yw cyflwyno cais i'r Llys Ynadon i gau fyny'r ardal o ymyl gwyrdd a nodir uchod gan dybir ei fod bellach ddim yn angenrheidol fel priffordd fabwysiedig, ac o ganlyniad lleihau'r baich cynnal ar yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol.

2. Argymhelliad

2.1 I'r pwyllgor gefnogi'r cynnig i gyflwyno cais i'r Llys Ynadon i gau fyny rhan o'r ymyl gwyrdd gerllaw'r A496 o flaen yr eiddo ac adnabyddir fel Pen y Garnedd, ar y sail nad yw bellach yn angenrheidiol fel priffordd.